

# MAE PETHAU AR CHWAL

## **PEDAIR BRWYDR UN UNDEB**

- 1** mynd i'r afael â sgandal bylchau rhwng cyflogau mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd ac anabled
- 2** rhoi terfyn ar gontractau dros dro a'r ansicrwydd cynyddol o ran swyddi
- 3** mynd i'r afael â llwythi gwaith cynyddol sy'n rhoi straen mawr ar ein haelodau
- 4** sicrhau cynnydd o £2,500 i'r holl bwyntiau ar y raddfa gyflog genedlaethol

**PLEIDLEISIWCH IE dros gamau gweithredu nad ydynt yn cynnwys streic.**

**PLEIDLEISIWCH IE dros streicio.**

# PEDAIR BRWYDR UN UNDEB

Rydym yn galw ar gyflogwyr i weithredu ar bedwar maes allweddol: anghydraddoldeb cyflog, swyddi dros dro, llwyth gwaith gormodol, a methiant i sicrhau bod ein cyflogau yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

Mae incwm addysg uwch wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, ond mae rheolwyr wedi gwrthod dro ar ôl tro i wneud unrhyw beth am y materion sy'n bwysig i staff. Mae'n amser ymladd nôl yn erbyn model busnes sy'n manteisio ar staff, yn eu gorlwytho ac yn hyrwyddo anghydraddoldeb.

## Anghydraddoldeb

Tra bod y cyflogau uchaf yn parhau i gynyddu, does dim byd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bla ar ein sector. Mae menywod yn cael eu talu 15.1% yn llai ar gyfartaledd na dynion, ac mae staff academiaidd du yn ennill 12-13% yn llai na chydweithwyr gwyn o'r un rhywedd a phrofiad.

## Swyddi dros dro

Erbyn hyn, caiff miloedd o staff AU eu cyflogi ar gcontractau dros dro a chyfnod penodol a diswyddwyd dros 3,000 o staff yn ystod y pandemig. Ni chafodd llawer o'r contractau a ddaeth i ben eu hadnewyddu. Mae ansicrwydd o ran swyddi yn arwain at lefelau uchel o straen, ac mae caledi ariannol a chamfanteisio ar staff hanfodol yn bla ar ein sector.

## Llwyth gwaith

Mae'r sefyllfa o ran gorlwytho gwaith wedi gwaethygu ac mae

pedwar o bob pum aelod o staff a holwyd gan UCU yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'u llwyth gwaith ac yn profi iechyd meddwl gwael. Nid yw hyn yn gynaliadwy. Mae enw da'r sector yn fyd-eang wedi'i adeiladu ar sail staff sy'n gorweithio ac mae ein cyflogwyr wedi methu â mynd i'r afael â'r mater.

## Cyflogau

Mae cyflogau wedi gostwng dros 20% yn erbyn chwyddiant ers 2009: arwydd hollbwysig o'r gwerth y mae cyflogwyr yn ei osod ar ein hymdrechion. Ar adeg pan fo'r sector wedi recriwtio mwy o fyfyrwyr nag erioed o'r blaen a phan fo mwy o fyfyrwyr nag erioed o'r blaen yn aros i gael lleoedd, maent wedi caniatáu i werth ein cyflog erydu o flwyddyn i flwyddyn.

## Beth mae UCU ei eisiau?

Hoffem weld ein cyflogwyr yn cydnabod maint ein pryderon, nid dim ond ynghylch swyddi dros dro, llwyth gwaith, anghydraddoldeb ac erydu cyflogau, ond hefyd am yr effaith gronol y mae'r materion hyn yn ei chael ar y ffordd y mae staff yn teimlo. Y cyfan y mae UCU ei eisiau yw bod ein cyflogwyr yn rhoi'r gorau i guddio y tu ôl i'w gilydd ac ymrwymo, o'r diwedd, i gyrraedd cytundeb cenedlaethol gyda ni ar y materion allweddol hyn.

**Gweithredwch dros amodau teg a chyflog teg yn ein sector.**

**PLEIDLEISIWCH IE dros gamau gweithredu nad ydynt yn cynnwys streic.**

**PLEIDLEISIWCH IE dros streicio.**